

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

1600324

ECAD6012/C

Thema

Model 1 – Dull Trawsgwricwlaidd Thema Seiliedig

Mae'r model yma yn ffocysu ar archwilio i thema benodol gan ddefnyddio amrywiaeth o bynciau i gyfoethogi'r thema (Barnes, 2015, t. 69). Mae angen sicrhau bod cysylltiadau clir rhwng y pynciau a'r thema er mwyn i'r dull yma o addysgu'n drawsgwricwlaidd fod o fudd i'r plant. Gall hyn fod yn anfantais gan ei fod yn cael effaith negyddol ar y dysgu. I sicrhau bod y dull yma o addysgu yn llwyddiannus, rhaid sicrhau bod y thema a dewiswyd yn berthnasol i'r disgyblion.

Y Gweithgareddau

Y thema fydd yn cael ei addysgu trwy'r model yma fydd Nadolig. Cyn i'r wers dechrau bydd 'olion traed Siôn Corn' ar y llawr i sbarduno'r dysgwyr. Yn ystod y wers bydd y disgyblion yn:

- Mesur olion traed Siôn Corn trwy 'trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth' a 'defnyddio unedau ansafonol i fesur' (Llywodraeth Cymru, 2014), megis blociau Lego, dwylo, ac yn y blaen.
- Ysgrifennu hyd olion traed Siôn Corn mewn brawddegau llawn gan 'trefnu cynnwys mewn dilyniant cywir' o'r lleiaf i'r mwyaf. (Llywodraeth Cymru, 2014). Bydd hefyd angen sicrhau bod y dysgwyr yn 'defnyddio priflythrenen ac atalnod llawn yn weddol gyson', yn ogystal â 'creu priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer yn eglur eu siâp ac yn wynebu'r ffordd gywir' wrth ysgrifennu' (Llywodraeth Cymru, 2014).
- Llwytho'r wybodaeth i J2E i 'gofnodi data a gesglir mewn fformat addas' wrth 'cydweithio gyda phartner' gyda chymorth athrawes/cynorthwydd (Llywodraeth Cymru, 2016).

Y Ffordd Ymlaen

Er mwyn ehangu ar y wers i ddatblygu sgiliau'r disgyblion ymhellach, mae modd i'r disgyblion edrych ar gamau Siôn Corn ac 'adnabod hanner a chwarter tro yn glocwedd a gwrthglocwedd' (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn ogystal â hyn gall sicrhau bod y disgyblion yn 'adnabod bod chwarter tro yn gyfystyr ag ongl sgwâr' (Llywodraeth Cymru, 2014). Gall y disgyblion ymhelaethu ar eu gwaith ysgrifenedig trwy 'defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol' gan ysgrifennu am Siôn Corn. (Llywodraeth Cymru, 2014). I ymestyn ar y dasg cymhwysedd digidol, gall y disgyblion 'tynnu gwybodaeth o dablau a graffiau syml' maen nhw wedi creu ac ateb amrywiaeth o gwestiynau ar lafar neu yn ysgrifenedig yn seiliedig ar y graff (Llywodraeth Cymru, 2016).



Crynodeb

Bydd y gwersi a nodwyd yn y ddau fodel yn cael ei addysgu i ddisgyblion blwyddyn un gyda'r thema 'dathliadau.' Dros y cyfnod o wersi a sesiynau yn y modelau, bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael ei ymgorffori fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Yn bresennol, mae ysgolion yn dilyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac yn ymgeisio i addysgu'r rhain fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Pwysleisia Barnes (2015) pwysigrwydd addysgu'n drawsgwricwlaidd gan fod nifer o fanteision i ddysgwyr gan gynnwys datblygu ac ehangu ar sgiliau cyfathrebu a chreadigrwydd, rhoi cyd-destun i'r gwaith a'i pharatoi at y dyfodol.

Y Tri Chyfrifoldeb

"Dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd i'r holl athrawon a phobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc." (Donaldson, 2015, t. 4). Awgryma Donaldson (2015) fod sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hanfodol i blant a phobl ifanc yn y byd modern. Os caiff yr elfennau yma eu datblygu'n drawsgwricwlaidd, bydd dysgwyr yn fwy hyderus i ddefnyddio'r sgiliau yma yn y dyfodol yn ogystal â thu allan i'r ystafell ddosbarth. Oherwydd bod y byd o hyd yn datblygu, mae'n angenrheidiol bod y tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yn cael ei addysgu o oedran ifanc.

Awgrymiadau Darllen

Barnes, J. (2015) Cross-Curricular Learning 3-14. (3ydd arg.) Llundain: SAGE.

Donaldson, G. (2015) 'Dyfodol Llwyddianus'. *Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> (Darllenwyd: 7 Rhagfyr 2018).

eu tro i siarad' i ehangu ar eu sgiliau llafar (LIC, 2014). I ymledu ar eu gwybodaeth o'r stori, gall y dysgwyr ymchwilio ar-lein a 'defnyddio allwedddeiriau i chwilio am wybodaeth benodol' (LIC, 2016). I arwain ymlaen o'r ail sesiwn, gall y disgyblion 'cofnodi'r data' am y siapau maen nhw wedi dewis ar ffurf 'pictogram' (LIC, 2014).

Model 2 – Addysgu a Dysgu Trawsgwricwlaidd Hierarchaidd

Mae'r model yma yn defnyddio pwnc i gyfoethogi'r dysgu o fewn pwnc penodol. Mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau yn y prif bwnc trwy addysgu pwnc ychwanegol. 'Effective and lasting learning in one subject is often provoked by calling upon another' (Barnes, 2015, t. 66). Er hyn, mae modd i'r sgiliau o'r pwnc israddol cael ei gysgodi gan y prif bwnc a gall hyn cael effaith negyddol ar effeithiolrwydd y dysgu.

Y Gweithgareddau

Y maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd fydd 'Pwnc A' yn y model yma, gyda nifer o bynciau arall i gyfoethogi'r dysgu. Ffocws y gwersi yma fydd Diwali, gŵyl goleuadau Hindiwaidd. Bydd y gwersi'n cael ei gynnal dros 2 sesiwn wahanol. Dros y sesiynau yma, bydd dysgwyr yn 'datblygu ymwybyddiaeth o ddiwyllianau gwahanol ac anghenion, safbwyntiau a chredoau amrywiol pobl eraill' (Yr Adran Addysgu a Sgiliau, 2015, t. 10).

O fewn y sesiwn gyntaf, bydd y disgyblion yn:

- Creu ac yn addurno lamp difa allan o glai sy'n 'datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio' (Yr Adran Addysgu a Sgiliau, 2015, t. 10).
- Trafod y camau gwahanol wrth greu'r lamp difa gan ddefnyddio cymorth matiau geirfa sy'n datblygu eu sgiliau llafar o 'gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud' (Llywodraeth Cymru, 2014).
- Cymryd llun o'i lamp difa ar iPad a llwytho i raglen J2E a sicrhau eu bod yn 'dewis meddalwedd priodol i gwbllhau tasgau er mwyn defnyddio testun' yn ogystal ag 'arbed gwaith gan ddefnyddio gair cyfarwydd fel enw i'r ffeil' (LIC, 2016).

Yn yr ail sesiwn, bydd y disgyblion yn:

Dewis siapau 2D a 'cyflwyno'u gwaith ar ffurf llun' o batrwm rangoli (LIC, 2014).

Ysgrifennu pa siapau maen nhw wedi defnyddio a pham wrth 'ddefnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu' (LIC, 2014).

Y Ffordd Ymlaen

I ddatblygu dysgu'r disgyblion ymhellach, gall mynd ymlaen i ddysgu am stori Rama a Sita a 'cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd i'r afael ar y pwnc' (LIC, 2014). I arwain ymlaen o'r ail sesiwn, gall y disgyblion 'cofnodi'r data' am y siapau maen nhw wedi dewis ar ffurf 'pictogram' (LIC, 2014).

Pwnc A wedi gwella

Pwnc A

Pwnc B